**Pembrokeshire County Council**
**Cyngor Sir Penfro**

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

---

**Cynnig ar gyfer Cau Ysgol Clydau**

# ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

**Mehefin 2026**

**Cyhoeddwyd gan:**

**Cyngor Sir Penfro**
**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**SA61 1TP**

**Mehefin 2026**

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, mewn print mwy bras neu dâp sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro 01437 776613

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hybu safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Ystyrir bod sicrhau bod yr ysgolion iawn yn y lleoedd iawn a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer dysgwr yr 21ain ganrif yn ganolog i hyn ac mae'n her sy'n wynebu cynghorau ledled Cymru.

Mae ymateb i'r her hon yn golygu adolygu'r nifer a'r mathau o ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu pa un a yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o'r ysgolion hyn ai peidio i ddarparu addysg effeithiol  ddiwallu anghenion a chyflawni dyheadau dysgwyr yn Sir Benfro.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgol
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgol
- Gwerth am arian.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Clydau ar 14 Ebrill 2026 ac arweiniodd at 126 o wrthwynebiadau.

Cyhoeddir yr Adroddiad Gwrthwynebiadau hwn o dan Adran 49 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n nodi bod yn rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod Ysgol Clydau wedi'i dynodi fel ysgol wledig ac y datblygwyd ac yr ystyriwyd y cynnig gan roi sylw dyladwy i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Wrth ddod i'w safbwynt, fe wnaeth y Cyngor ystyried yn ofalus: yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg; yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion; y ddarpariaeth o adnoddau a goblygiadau ariannol eraill; ffactorau cyffredinol eraill, a ffactorau penodol yn ymwneud ag opsiynau amgen. Ystyriodd hefyd: effeithiau cymunedol, gan gynnwys effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned o yn y lleoliadau addysgol; effeithiau cydraddoldeb, ac effaith gwahanol drefniadau teithio.

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Cyngor Sir Penfro ymgynghoriad statudol rhwng 9 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, â chynnig i gau Ysgol Clydau.

Wedi hynny, ystyriwyd adroddiad yr Ymgynghoriad gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026. Roedd penderfyniad y Cyngor fel a ganlyn;

**Y dylid awdurdodi'r Cyfarwyddwr Addysg i gyhoeddi Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Clydau.**

Cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol wedi hynny ar 14 Ebrill 2026 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Daeth y cyfnod gwrthwynebu statudol ar gyfer yr hysbysiad i ben ar 11 Mai 2026. Derbyniwyd 126 o wrthwynebiadau.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y Cyngor Sir yn rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiadau ac mae'n darparu:

- Crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd, ac
- ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

# 2. Dosbarthu'r Adroddiad Gwrthwynebiadau

| | |
|---|---|
| **Cyrff Llywodraethu, Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid a Staff:** | |
| Ysgol Clydau | |
| **Cyrff Llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion** | |
| Ysgol Bro Preseli<br>Ysgol Brynconin<br>Ysgol Maenclochog<br>Ysgol Eglwyswrw<br>Ysgol Cilgerran<br>Ysgol Llandudoch | Ysgol y Ddwylan<br>Ysgol Hafodwenog<br>Ysgol Bro Brynach<br>Ysgol Beca |
| **Aelodau Etholedig:** | |
| • Paul Davies – AS Ceredigion Penfro<br>• Claire Archibald - AS Ceredigion Penfro<br>• Kerry Ferguson - AS Ceredigion Penfro<br>• Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones - AS Ceredigion Penfro<br>• Paul Marr – AS Ceredigion Penfro<br>• Anna Nicholl – AS Ceredigion Penfro<br>• Ben Lake AS – Ceredigion Preseli | • Y Cynghorydd Iwan Ward<br>• Y Cynghorydd Shon Rees<br>• Y Cynghorydd John Davies |
| **Cynghorau Tref a Chymuned Perthnasol:** | |
| CC Clydau, CC Crymych, CC Boncath, CC Maenordeifi | |
| **Undebau Llafur:** | |
| Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU), Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT), UCAC, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT), Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCLE), UNSAIN, UNITE, GMB | |
| **Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig.** | |
| Tyddewi | Archesgobaeth Unedig Caerdydd Mynyw |
| **Awdurdodau Lleol** | |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Eraill** | |
| Gweinidogion Cymru,<br>Estyn<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys | Comisiynydd y Gymraeg<br>Partneriaeth – Consortiwm Addysg Rhanbarthol<br>Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| **Darparwr Blynyddoedd Cynnar / Gofal Plant Annibynnol / Gwirfoddol** | |
| **Lleoliadau Cylch Chwarae**<br>• Cylch Meithrin Hermon<br>• Cylch Meithrin Bwlychygroes<br>• Cylch Meithrin Crymych<br>• Meithrinfa Playdays | **Gwarchodwyd Plant**<br>• MG – Blaenffos<br>• LP – Boncath |

# 3. Gwrthwynebiadau a Dderbyniwyd ac Ymateb y Cyngor

Derbyniwyd 126 o wrthwynebiadau i'r cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn llawn yn **ATODIAD 1**.

Mae adran hon yr adroddiad yn crynhoi'r gwrthwynebiadau i'r cynnig ac yn darparu ymateb iddynt gan y Cyngor.

Categoreiddiwyd sylwadau yn ôl thema â dynodiad o nifer yr ymatebwyr a wrthwynebodd i'r cynnig ar y seiliau hyn:

| Rhif | Thema | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| 1 | Effaith ar y Gymuned (Colli canolfan, hunaniaeth, cydlyniant) | 80 (64%) |
| 2 | Cynaliadwyedd Gwledig (effaith ar deuluoedd a chynaliadwyedd hirdymor) | 75 (60%) |
| 3 | Teithio, Trafnidiaeth a Hygyrchedd (gan gynnwys cymhwystra / tegwch) | 51 (41%) |
| 4 | Effaith ar y Gymraeg (addysg a defnydd cymunedol) | 44 (35%) |
| 5 | Ansawdd Addysg / Amgylchedd Dysgu (gan gynnwys ADY) | 35 (28%) |
| 6 | Pryderon hinsawdd / amgylcheddol | 35 (28%) |
| 7 | Pryderon ariannol (arbedion, cost fesul disgybl) | 25 (20%) |
| 8 | Diffyg buddsoddiad mewn adeiladau | 20 (16%) |
| 9 | Ni archwiliwyd opsiynau yn hytrach na chau | 19 (15%) |
| 10 | Pryder ynghylch y broses ymgynghori | 11 (9%) |
| 11 | Llwybrau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Disgyblion | 14 (11%) |
| 12 | Materion Strategol Ehangach (polisi, demograffeg, capasiti ac effeithiau hirdymor) | 30 (24%) |

Sylwer: Codwyd mwy nag un thema ym mhob gwrthwynebiad, sy'n golygu bod cyfanswm yr ymatebion yn fwy na nifer y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.

Amlinellir y pryderon a godwyd yn fwy manwl yn y tabl isod, ynghyd ag ymatebion y Cyngor.

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| **Effaith ar y Gymuned (Colli canolfan, hunaniaeth, cydlyniant)** | |
| Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai colli'r ysgol yn gwanhau'r gymuned gan ei bod yn gweithredu nid yn unig fel man addysgu ond fel canolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, digwyddiadau a chydlyniant cymunedol.<br><br>Codwyd pryderon y byddai cau'r ysgol yn gwanhau hunaniaeth gymunedol, yn lleihau ymgysylltiad ac yn cyfrannu at ddirywiad hirdymor. Codwyd pryderon y gallai cau'r ysgol gyfrannu at leihau'r boblogaeth, llai o ymgysylltiad a cholli cysylltiadau cymunedol rhyng-genhedlaeth. | Mae'r Cyngor yn cydnabod cryfder y teimladau ynghylch swyddogaeth Ysgol Clydau fel rhan o gyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol y gymuned leol. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr yr ysgol fel cyfrannwr pwysig at hunaniaeth a chydlyniant cymunedol.<br><br>Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn dynodi er bod yr ysgol yn cael ei gwerthfawrogi yn symbolaidd ac yn gymdeithasol bod y rhan fwyaf o weithgarwch cymunedol a drefnir yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd trwy Ganolfan Clydau, na fydd yn cael ei heffeithio gan y cynnig.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod y byddai colli adeilad yr ysgol yn newid i'r gymuned ac y gallai fod tybiaeth ei fod yn arwyddocaol yn lleol, nid yw o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad sylweddol i'r gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn gyffredinol, nac yn cael effaith berthnasol ar gydlyniant cymunedol. Hefyd, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ceir cyfle i safle'r ysgol gael ei addasu at ddiben cymunedol newydd, yn ddibynnol ar y diddordeb a geir. |
| **Cynaliadwyedd Gwledig (effaith ar deuluoedd a chynaliadwyedd hirdymor)** | |
| Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai cau'r ysgol yn gwneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd ifanc sy'n dymuno symud i'r ardal. Roedd ofn y byddai'r cynnig yn peri risg o greu cylch o ddirywiad gwledig, â llai o deuluoedd yn debygol o aros yn yr ardal neu adleoli iddi a demograffeg yn newid a fyddai'n lleihau cynaliadwyedd hirdymor yr ardal.<br><br>Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bod presenoldeb ysgol leol yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar ba un a yw teuluoedd yn dewis symud i ardaloedd gwledig neu aros | Yn ôl data CYBLD 2025, o'r 40 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Clydau, dim ond 14 oedd yn mynychu Ysgol Clydau (35%). Roedd 24 o ddisgyblion yn y dalgylch yn mynychu Ysgol Bro Preseli (60%), ac roedd dau ddisgybl arall a oedd yn byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Mae'r data hyn yn awgrymu bod symudedd teuluoedd (eu parodrwydd a'u gallu i ddewis ysgol bellach i ffwrdd i'r plant ei mynychu, ac i wneud eu trefniadau teithio eu hunain iddynt ei mynychu) o'r fath efallai na fydd y pryderon a godwyd yn cael eu gwireddu, neu efallai y byddant yn cael eu gwireddu i raddau llawer llai nag y mae rhai yn ei gredu fydd yn wir. |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| ynddynt gan fynegi pryder y gallai cau'r ysgol gyflymu dirywiad demograffig yn weithredol yn hytrach na'i adlewyrchu yn unig. | Am yr un rheswm, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod Ysgol Clydau wedi'i dynodi fel ysgol wledig a bod rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhagdybiaeth hon ac i'r ffactorau penodol sy'n ofynnol o dan y Cod, gan gynnwys yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg; yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion; y ddarpariaeth o adnoddau a goblygiadau ariannol eraill; ffactorau cyffredinol eraill, a ffactorau penodol yn ymwneud ag opsiynau amgen. Ystyriodd hefyd: effeithiau cymunedol, gan gynnwys effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned ac yn y lleoliadau addysgol; effeithiau cydraddoldeb, ac effaith gwahanol drefniadau teithio. |
| **Teithio, Trafnidiaeth a Hygyrchedd (gan gynnwys cymhwystra / tegwch)** | |
| Cododd ymatebwyr bryderon am yr effaith y byddai amseroedd teithio hwy yn ei chael ar blant ifanc ac y byddai'n cael effaith negyddol ar eu llesiant a'u dysgu. Codwyd materion o degwch hefyd lle efallai na fydd rhai disgyblion yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth gan greu beichiau ychwanegol i deuluoedd penodol. | Dim ond 4.3 milltir sydd ar ffordd rhwng Ysgol Clydau ac Ysgol Bro Preseli, ag amser teithio bras o 10 munud. Er y bydd gan 7 disgybl (29%) lai o bellter i'w deithio, i weddill y disgyblion mae'r cynnydd i'r pellter yn gymedrol yn gyffredinol ac ni ystyrir ei fod yn afresymol o gofio natur wledig yr ardal.<br><br>Bydd disgyblion cymwys yn derbyn trafnidiaeth am ddim o'u cartrefi i'r ysgol yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor. Bydd trefniadau trafnidiaeth yn blaenoriaethu diogelwch a llesiant, a bydd cymorth pontio priodol yn cael ei ddarparu i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl. |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| **Effaith ar y Gymraeg (addysg a defnydd cymunedol)** | |
| Cododd ymatebwyr bryderon bod y cynnig yn methu ag ystyried y Gymraeg fel iaith gymunedol ac y gallai cau'r ysgol wanhau defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a lleihau ymgysylltiad teuluoedd â'r iaith.<br><br>Un thema gyson oedd bod y Gymraeg yn cael ei chynnal trwy ryngweithio cymdeithasol beunyddiol yn y gymuned, nid drwy addysg ffurfiol yn unig, a gallai tarfu ar y rhwydweithiau hyn gael effeithiau y mae'n anodd eu mesur ond a fydd o bosibl yn sylweddol ac yn amhosibl eu gwrthdroi.<br><br>Hefyd, nododd rhai ymatebwyr bod cwyn wedi cael ei wneud i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n cael ei ymchwilio o ran pa un a wnaeth y cynigion ystyried yn briodol yr effaith debygol ar y Gymraeg yn y gymuned. Roedd barn ymhlith rhai y dylid gohirio'r broses tan fydd y canlyniad yn hysbys.<br><br>. | Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, o safbwynt addysgol a chymunedol. Barn y Cyngor yw bod y Ddogfen Ymgynghori wedi ystyried yn gydwybodol effaith y cynnig ar y Gymraeg a'i bod wedi parhau i wneud hynny yn rhan o'r broses ymgynghori, trwy ofyn yn weithredol am sylwadau ac awgrymiadau gan ymgyngoreion ar y mater, a diweddaru'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yng ngoleuni gwybodaeth a dderbyniwyd.<br><br>Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw bwerau i oedi neu atal proses yr Ymgynghoriad Trefniadaeth Ysgolion, ac o gofio, ym marn y Cyngor, y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i effeithiau ar y Gymraeg, yn addysgol ac yn y gymuned, nid oes unrhyw reswm i ohirio'r broses.<br><br>O'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Cyngor o'r farn y byddai effaith niwtral ar y Gymraeg pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.<br><br>Ni fyddai'r cynnig yn lleihau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo o un ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Cymraeg arall. Mae'r Cyngor o'r farn bod hyn yn cynnal canlyniadau ieithyddol ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>O ran yr effaith bosibl ar y Gymraeg yn y gymuned, prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar y mater.<br><br>Comisiynwyd yr unig ymchwil y gwnaed y Cyngor yn ymwybodol ohoni gan y Sefydliad Materion Cymreig, sef astudiaeth o 2007 gan Reynolds a Jones, o'r enw - *Small School Closure in Wales: New Evidence*. Mae canfyddiadau allweddol o'r astudiaeth honno yn cynnwys: |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| | *…it is clear that apocalyptic predictions about the impact of small school closures on the Welsh language and on communities are not borne out by our sample*.<br><br>*…in the key areas of the Welsh language and impact on the local communities, we found little support for those who fear the destructive effects of closure. Indeed, not a single adult or child (out of 48) thought that the Welsh language's situation had worsened since closure.* |
| **Ansawdd Addysg / Amgylchedd Dysgu (gan gynnwys ADY)** | |
| Honnodd ymatebwyr bod amgylchedd ysgol fach yn caniatáu amgylchedd magwrol ac yn hybu perthynas gref rhwng staff a disgyblion. Credir fod plant yn derbyn mwy o sylw unigol efallai nad yw'n bosibl mewn ysgol fwy, lle gallai rhai disgyblion gael trafferth yn addasu i leoliad mwy a mwy amhersonol.<br><br>Rhoddodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau personol manwl yn amlygu swyddogaeth yr ysgol o ran cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu gyflyrau meddygol, gan bwysleisio pwysigrwydd tybiedig meintiau dosbarth bach a pherthynas agos rhwng staff a disgyblion. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y manteision sy'n aml yn gysylltiedig ag ysgolion bach, gan gynnwys perthnasoedd agos a chymorth unigoledig. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod llawer o fanteision sy'n gysylltiedig ag ysgolion mwy. Mae Estyn wedi dynodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau addysg.<br><br>Mae'r ysgol sy'n derbyn, Ysgol Bro Preseli, yn cynnig mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol a chymdeithasol mewn lleoliad 3–19 oed. Mae ganddi drefniadau priodol ar waith hefyd i gynorthwyo pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br><br>Bydd trefniadau pontio, gan gynnwys cymorth bugeiliol penodol i unigolion, yn cael eu blaenoriaethu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol. |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| **Pryderon hinsawdd / amgylcheddol** | |
| Mae ymatebwyr yn honni bod y penderfyniad i gau ysgol leol yn mynd yn groes i ddatganiad argyfwng hinsawdd Cyngor Sir Penfro ac y bydd yn cynyddu teithiau mewn ceir ac allyriadau trafnidiaeth. | Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon yn ymwneud â newid hinsawdd. Er efallai y bydd mân gynnydd i allyriadau cysylltiedig â thrafnidiaeth oherwydd y pellteroedd byr iawn dan sylw, dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r gostyngiad i allyriadau sy'n gysylltiedig â pheidio â gweithredu a chynnal ysgol â chapasiti dros ben sylweddol mwyach. |
| **Pryderon ariannol (arbedion, cost fesul disgybl)** | |
| Cododd ymatebwyr bryderon y gallai'r arbedion i'w gwneud fod wedi cael eu gorddatgan oherwydd costau trafnidiaeth cynyddol. Roedd barn hefyd bod ardaloedd gwledig yn derbyn llai o fuddsoddiad cyhoeddus yn gyffredinol nag ardaloedd mwy trefol, â gwrthwynebiad i ddefnyddio'r 'cost fesul disgybl' fel ffactor benderfynu ar gyfer cau'r ysgol. | Dim ond un o lawer o ffactorau a ystyrir wrth adolygu cynaliadwyedd hirdymor ysgol yw cynaliadwyedd ariannol. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn cydnabod bod costau trafnidiaeth yn debygol o gynyddu; fodd bynnag, mae'n dod i'r casgliad bod y cynnig yn dal i gynrychioli defnydd mwy effeithlon o adnoddau yn gyffredinol.<br><br>Mae ysgolion a niferoedd disgyblion isel yn ysgwyddo costau sylweddol uwch fesul disgybl. Mae cynnal darpariaeth o'r fath yn cyfyngu gallu'r Cyngor i ddyrannu adnoddau yn deg ar draws y system addysg ehangach.<br><br>Mae Estyn wedi nodi'n flaenorol: *nad yw adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon neu effeithiol i wella ansawdd addysg, lle mae lefel uwch na'r angen o leoedd ysgol.*<br><br>Cyflwynodd y cynnig arbedion a chostau rhagweledig. Gweler tudalen 28 a thudalennau 63 i 65 y ddogfen ymgynghori. |
| **Diffyg buddsoddiad mewn adeiladau** | |
| Roedd pryder nad yw'r cyngor wedi buddsoddi yn yr adeilad ers 2022 a'i fod bellach yn defnyddio cyflwr yr adeilad fel dadl dros gau'r ysgol. Ceir adeiladau ysgol eraill sydd mewn cyflwr tebyg ond nad ydynt o dan fygythiad o gael eu cau. | Nid yw'r cynnig wedi'i seilio ar gyflwr yr adeilad neu lefelau buddsoddi diweddar yn unig. Mae cyflwr yr eiddo yn un o nifer o ffactorau a ystyrir yn rhan o asesiad strategol ehangach, gan gynnwys niferoedd disgyblion, capasiti dros ben, cynaliadwyedd addysgol a'r defnydd effeithlon o adnoddau. |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| | Er efallai fod gan ysgolion eraill adeiladau mewn cyflwr tebyg, ystyrir pob un ar sail ei hamgylchiadau unigol ac nid Ysgol Clydau yw'r unig ysgol sy'n mynd drwy'r broses ffurfiol o ystyriaeth i'w chau ar hyn o bryd.<br><br>Yn 2022, fe wnaeth yr ysgol elwa o fuddsoddiad cyfalaf i gefnogi prosiect ail-ddylunio, gan gynnwys gosod rhodfa/coridor cyswllt caeedig pwrpasol, ynghyd ag uwchraddiadau thermol i fannau to gwastad cyfagos a chladin allanol. Gwnaed gwelliannau thermol i nenfydau crog mewn mannau addysgu hefyd.<br><br>Ers hynny, mae'r ysgol wedi parhau i elwa o gael ei chynnwys yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG), sy'n darparu profion ac archwiliadau statudol o systemau mecanyddol a thrydanol ar draws yr adeiladau a'r safle ehangach. Mae materion a godwyd gan yr ysgol a Swyddogion wedi cael eu cofnodi ac wedi cael sylw drwy'r gwasanaeth Atgyweiriadau Ymatebol, gan gyflawni gwaith mân ar amrywiaeth o elfennau mewnol ac allanol. |
| **Ni archwiliwyd opsiynau yn hytrach na chau** | |
| Roedd ymatebwyr yn teimlo y rhoddwyd ystyriaeth annigonol i archwilio opsiynau yn hytrach na chau'r ysgol, fel ffederasiwn neu fenter gydweithredol drawsffiniol. | Ystyriwyd ystod lawn o opsiynau amgen, gan gynnwys ffederasiwn a chydweithredu ag ysgolion cyfagos, yn ofalus yn ystod datblygiad y cynnig (gweler tudalen 30 a thudalennau 54 i 70 y ddogfen ymgynghori) ac eto yn rhan o'r adroddiad ymgynghori yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad. Dangosodd gwaith dadansoddi na fyddai'r opsiynau hyn yn datrys problemau allweddol fel lleoedd dros ben, cynaliadwyedd ariannol, na hyfywedd hirdymor addysg yn ardal Preseli.<br><br>Rhoddwyd sylw penodol i ffederasiwn, boed gydag Ysgol Bro Preseli neu ysgolion cyfagos eraill, a chanfuwyd nad oedd yn mynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at y cynnig ac a amlygwyd uchod. |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
| --- | --- |
| | Ar y sail hon, mae'r Cyngor yn fodlon bod pob opsiwn amgen rhesymol wedi cael ei werthuso'n llawn a bod y cynnig yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| **Pryder ynghylch y broses ymgynghori** | |
| Cododd ymatebwyr bryderon nad oedd y broses statudol wedi cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. | Mae'r Cyngor yn fodlon bod y prosesau ymgynghori a statudol wedi cael eu cynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| Roedd ymatebwyr yn teimlo bod y penderfyniad i gau, mor agos i ddiwedd y flwyddyn ysgol, yn creu ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni, a staff ac yn gadael amser cyfyngedig ar gyfer cynllunio'r cyfnod pontio. | Mae'r Cyngor yn cydnabod y sensitifrwydd o ran amseru. Fodd bynnag, y broses statudol sy'n gorchymyn yr amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau. Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd trefniadau pontio cynhwysfawr, gan gynnwys cymorth i ddisgyblion a staff, yn cael eu gwneud i sicrhau parhad ac i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl. |
| Codwyd pryderon am brosesau ad-drefnu lluosog yn digwydd ar yr un pryd a gallu swyddogion ac aelodau i roi ystyriaeth briodol i bob un o'r cynigion. | Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl brosesau wedi cael eu cyflawni yn unol â gofynion statudol. Ystyrir pob cynnig ar ei rinweddau ei hun, gan ddilyn gweithdrefnau ymgynghori ac adrodd llawn. Mae trefniadau llywodraethu priodol yn sicrhau proses gwneud penderfyniadau gadarn. |
| Roedd pryder hefyd nad oedd y broses ymgynghori wedi cymryd safbwyntiau'r gymuned i ystyriaeth yn ddigonol, wrth i ymatebwyr godi pryderon cryf ynghylch y pwys tybiedig a roddwyd i'r nifer fawr o ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r penderfyniad i gau'r ysgol. | Mae'r Cyngor wedi treulio amser sylweddol yn darllen ac yn ystyried pob ymateb, i'r ddogfen ymgynghori ac i wrthwynebiadau a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Mae wedi ystyried cynigion amgen ac wedi diweddaru dogfennau allweddol, fel yr asesiad effaith ar y gymuned, yng ngoleuni sylwadau a dderbyniwyd. |
| **Llwybrau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Disgyblion** | |
| Cododd ymatebwyr bryderon am yr effaith bosibl ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol a'r llwybr pontio i addysg cyfrwng Cymraeg. | Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth blynyddoedd cynnar a'i chysylltiad ag addysg gynradd. Bydd darparwyr blynyddoedd cynnar yn parhau i weithredu'n annibynnol, a bydd |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| | mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn dal i fod ar gael drwy ysgolion eraill.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda darparwyr i ddarparu trefniadau pontio effeithiol ac i sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei chynnal ar draws yr ardal. |
| **Materion Strategol Ehangach (polisi, demograffeg, capasiti ac effeithiau hirdymor)** | |
| Codwyd y materion canlynol gan ymatebwyr ar y cyd â phryderon eraill yn hytrach nag fel pryderon annibynnol.<br><br>I ba raddau y mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol a lleol, gan gynnwys Cymraeg 2050, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac ymrwymiadau hinsawdd y Cyngor.<br><br>Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Bro Preseli, gan gynnwys pa un a yw cyfleusterau, seilwaith, ac adnoddau presennol yn ddigonol ar gyfer disgyblion ychwanegol heb effeithio ar safonau neu brofiad disgyblion.<br><br>Gwnaeth ymatebwyr gais i oedi'r penderfyniad i gau'r ysgol tan fod y datblygiad tai newydd gyferbyn â'r ysgol wedi'i gwblhau gan y gallai hwn gynhyrchu disgyblion ychwanegol ar gyfer yr ysgol.<br><br>Tynnodd ymatebwyr sylw dro ar ôl tro at barhauster cau'r ysgol, gan nodi bod yr ysgol yn annhebygol o ailagor ar ôl iddi gau, ac felly dylid gwneud penderfyniadau yn ofalus pan fo'r effeithiau hirdymor yn ansicr. | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cynnig yn codi nifer o ystyriaethau strategol ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i'r effeithiau addysgol uniongyrchol.<br><br>O ran cysondeb polisi, mae'r Cyngor wedi ystyried y cynnig yng nghyd-destun polisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol perthnasol, ac mae'r cynnig yn gyson â'r cyd-destun strategol hwnnw.<br><br>O ran capasiti, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith cynllunio lleoedd disgyblion manwl ac yn fodlon bod gan Ysgol Bro Preseli gapasiti digonol ar gyfer disgyblion sy'n symud o Ysgol Clydau. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r gofrestr bresennol, niferoedd amcanestynedig, a llety sydd ar gael. Nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai'r cynnig yn effeithio'n niweidiol ar safonau neu fynediad at gyfleusterau.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon ynghylch tueddiadau demograffig hirdymor a chynaliadwyedd cymunedau gwledig. Fodd bynnag, mae amrywiaeth eang o ffactorau economaidd, cymdeithasol a thai yn dylanwadu ar dueddiadau o'r fath, ac ni ellir eu priodoli i un cynnig trefniadaeth ysgolion. Mae rhagolygon trywyddau tai a niferoedd disgyblion yn rhan o'r gwaith cynllunio digonolrwydd. Fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori, mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu dau ddisgybl ac ni fyddai hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol i nifer y disgyblion. Mae data cyfredol yn nodi bod cyfran sylweddol o deuluoedd eisoes yn dewis manteisio ar addysg y tu allan i'r ysgol |

| Sylwadau gwrthwynebu | Ymateb |
|---|---|
| | ddalgylch, ac felly mae’r Cyngor o’r farn bod y cynnig yn adlewyrchu patrymau presennol yn hytrach na’u newid yn sylfaenol.<br><br>Mae’r Cyngor hefyd yn cydnabod bod cau’r ysgol yn newid arwyddocaol sy’n aml yn barhaol. Am y rheswm hwn, mae cynigion yn destun ymgynghoriad manwl, asesiad effaith, a phrosesau statudol, gan gynnwys proses wrthwynebu ffurfiol y mae’r adroddiad hwn yn crynhoi ei chanfyddiadau. Caiff y penderfyniad, a wneir gan y Cyngor llawn, ei wneud dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus o’r holl ffactorau perthnasol. |